CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
TÎM COMISIYNU

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

Enw/Cyfeiriad y Darparwr: Cartref Preswyl Springfield

Dyddiad/Amser yr Ymweliad: Dydd Iau 16 Mehefin 2022, 11.30 - 2.30pm

Swyddog(ion) Ymweld: Andrea Crahart, Swyddog Monitro Contractau CBS Caerffili

Yn bresennol: Nicola Mullins, Rheolwr Cofrestredig
Ms Bethan Evans, Unigolyn Cyfrifol

1. Cefndir

1.1 Mae Cartref Gofal Springfield yn gartref preswyl sy'n lletya oedolion iau sydd ag anabledd dysgu. Mae'r gwasanaeth yn eiddo i My Choice Healthcare South Wales Ltd. a gymerodd gyfrifoldeb ym mis Ionawr 2021, a Bethan Evans yw'r Unigolyn Cyfrifol. Nicola Mullins yw'r Rheolwr Cofrestredig, sydd wedi'i chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol).

1.2 Mae cartref preswyl Springfield yn dŷ mawr iawn ar wahân, wedi'i leoli mewn tir deniadol sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn Gilfach. Mae'r cartref wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu llety a chymorth i 5 o bobl. Ar adeg yr ymweliad roedd 5 o bobl yn byw yn y cartref; 4 wedi'u hariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ac 1 person a ariennir gan Gyngor Dinas Caerdydd. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ymestyn nifer y gwelyau y gall y cartref eu lletya o 5 i 6 yn y dyfodol agos.

1.3 Fel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion nac atgyfeiriadau diogelu yn ystod y flwyddyn flaenorol.

1.4 Nododd adroddiad arolygu diweddaraf Arolygiaeth Gofal ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) (dyddiedig Ionawr 2022) faes i'w wella mewn perthynas â Chynlluniau Person (Cynlluniau Gofal), sydd wedi cael sylw ers hynny.

1.5 Gan ddibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, rhoddir camau adfer a chamau datblygu i'r darparwr eu cwblhau. Camau y mae'n rhaid eu cymryd yw camau unioni (yn unol â deddfwriaeth), ac argymhellion arfer da yw camau datblygu.

2. Argymhellion Blaenorol

Camau adfer

2.1 Dylid sicrhau hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia ar gyfer staff nad ydynt wedi cael cwrs gloywi ers rhai blynyddoedd. Amserlen: O fewn tri mis ac yn barhaus. **Yn parhau.**

2.2 Dylid ffeilio Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) i bob unigolyn ar eu ffeil gofal (wedi'u ffeilio ar y ffeil Diogelwch Tân hefyd). Amserlen: Ymhen mis. Wedi'i gyflawni.

Datblygu

2.3 Staff i lofnodi pan fydd newidiadau/adolygiadau wedi'u gwneud i Gynlluniau Personol/Asesiadau Risg. Amserlen: O fewn mis ac yn barhaus. Wedi'i gyflawni.

3. Unigolyn Cyfrifol

3.1 Mae'n ofynnol i'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth gynhyrchu adroddiadau chwarterol i ddarparu gwybodaeth am berfformiad ac ansawdd y lleoliad. Darllenwyd yr adroddiadau diweddaraf a dangoswyd bod ymweliadau trylwyr yn cael eu cynnal, gydag adborth yn cael ei gasglu gan breswylwyr/teuluoedd, craffu ar ddogfennaeth, systemau, gan gyfeirio at argymhellion gan AGC ac unrhyw gamau clir i'r Rheolwr eu cymryd.

3.2 Roedd yn amlwg bod Datganiad o Ddiben y Cartref yn gyfredol, ar ôl cael ei adolygu'n ddiweddar. Mae'n ofynnol diweddaru'r ddogfen hon yn flynyddol, neu'n amlach os oes newidiadau y mae angen eu rhoi ar waith.

3.3 Y cynllun wrth gefn pe na bai'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig ar gael fyddai y byddai uwch weithwyr gofal yn cyflenwi'r gwasanaeth yn y cyfamser, yn ogystal â bod Pennaeth Gofal sy'n rheolwr llinell ar Reolwr y Cartref.

4. Archwiliad ffeiliau a dogfennau

4.1 Edrychwyd ar ffeil unigolyn ac roedd yn cynnwys mynegai a llun o'r person, gyda Phroffil Personol a oedd yn cynnwys yr holl fanylion cyswllt defnyddiol e.e. perthynas agosaf, gweithiwr cymdeithasol ac ati. Roedd dogfennau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gael o ran adolygiad o'r Cynllun Gofal a Chymorth, Asesiad Integredig ac Asesiad Risg Cymhleth a fyddai'n helpu i ysgrifennu Cynllun Personol manylach (Cynllun Gofal a Chynllun Cymorth) ar gyfer y cartref.

4.2 Roedd yn amlwg bod gwelliannau pellach wedi'u gwneud i gynllun a diwyg y Cynllun Personol ar gyfer y person dan sylw, a deellir bod hyn wedi'i gyflwyno i ffeiliau unigolion eraill hefyd. Roedd y Cynllun Personol yn cynnwys hanes bywyd, sef 'Fy Stori i'; digwyddiadau pwysig ym mywyd y person; proffil cyfathrebu; 'beth sy'n bwysig i mi', 'beth nad ydw i'n ei hoffi' ac ati, a chyfeiriodd at ddewisiadau'r person o ran eu gofal personol e.e. dywedodd 'Mae'n well gen i gawod na bath' a pha mor aml y mae'n dymuno hynny. Cofnodwyd hefyd restr o frandiau o eitemau ymolchi y mae'r person yn hoffi eu defnyddio. Roedd gwybodaeth fanwl arall hefyd yn bresennol am anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.

4.3 Roedd y Cynllun Personol yn cynnwys 'canlyniadau cymdeithasol' yr hoffai'r person eu cyflawni, sut beth fyddai diwrnod arferol fel y byddai'r staff gofal yn gwybod sut i gynorthwyo'r person i gyflawni ei nodau. Roedd y tîm staff wedi ymrwymo i'r cynllun hefyd i ddangos eu bod wedi'i ddarllen a'i ddeall a'u bod wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

4.4 Roedd gwybodaeth arall yn cynnwys cynllun Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol manwl a llawn gwybodaeth fel y gall staff fod yn ymwybodol o unrhyw sbardunau posibl i ymddygiadau, camau atal a strategaethau ymatebol yn berthnasol i'r sefyllfa. Roedd Asesiadau Risg addas hefyd ar waith, siartiau ymddygiad, cofnod pwysau ac ati. Roedd map o'r corff wedi'i gwblhau, ond nid oedd unrhyw gofnodion nac esboniad arall ynghylch pam yr oedd angen cwblhau map y corff. Tynnwyd sylw'r Rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol at hyn yn ystod y cyfarfod i'w archwilio ymhellach.

4.5 Roedd rhai Cofnodion Dyddiol diweddar yn fanwl iawn, gan adlewyrchu anghenion yr unigolyn ac wedi'u dyddio/amseru a'u llofnodi'n rheolaidd gan yr aelod o staff a oedd yn eu cwblhau.

4.6 Roedd llythyrau apwyntiadau meddygol yn bresennol i ddangos bod apwyntiadau wedi'u trefnu gyda'r meddyg, y nyrs, yr ymgynghorydd ac ati.

4.1 Adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid

4.1.1 Casglwyd gwybodaeth Sicrhau Ansawdd a chynhaliwyd yr adolygiad ansawdd gofal diweddaraf ym mis Ebrill/Mai 2022 gan yr Unigolyn Cyfrifol. Anfonwyd holiaduron yn gwahodd adborth at y preswylwyr, gyda rhai ohonynt yn cael eu cefnogi i wneud hynny, staff, teulu/ffrindiau/eiriolwyr a gweithwyr proffesiynol. Roedd yr holl adborth a dderbyniwyd yn rhagorol, gyda llawer o sgoriau uchel yn cael eu darparu a sylwadau cadarnhaol. Lle awgrymwyd sylwadau ar gyfer gwella, nodwyd y rhain a chynlluniwyd ar eu cyfer. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn y flwyddyn flaenorol, ond derbyniwyd llawer o ganmoliaethau gan bobl yn y gymuned yn ystod trip, a theuluoedd sy'n dymuno diolch i'r staff cymorth am gadw eu 'hanwyliaid' yn ddiogel yn ystod cyfnod Covid-19 ac ati.

4.1.2 Cynhaliodd y swyddog monitro sgwrs gydag un o'r bobl a gefnogwyd a oedd yn ymddangos yn fodlon a dywedodd sut roedd yn edrych ymlaen at fynd allan y prynhawn hwnnw gyda'i berthynas. Dangosodd y gŵr bonheddig rai o'r gweithgareddau y mae'n mwynhau eu gwneud i'r swyddog monitro.

4.2 Hyfforddiant

4.2.1 Mae'r tîm staff yn elwa ar ystod eang o hyfforddiant a gynigir e.e. Diogelu, Rheoli Heintiau, Codi a Chario, Meddyginiaeth, Hylendid Bwyd ac ati, ac roedd y matrics hyfforddiant a ddarparwyd yn dangos bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu hyfforddiant.

4.2.2 Mae'r rheolwr yn ymwybodol o Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan sy'n ofynnol i ofalwyr newydd ei gwblhau, ac yn gyfarwydd â'r gofynion i ofalwyr gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn mis Hydref 2022.

4.3 Staffio

4.3.1 Edrychwyd ar ddwy ffeil staff a oedd wedi'u trefnu'n dda ac roeddent yn cynnwys mynegeion a thaflen manylion personol. Roedd gwybodaeth berthnasol wedi'i chofnodi ar y ddalen hon a chofnodwyd gwybodaeth megis y gwiriad DBS diweddaraf a'r manylion cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Fodd bynnag, ni chadarnhaodd y DBS a oedd y canlyniad yn glir ai peidio, ac fe'i trafodwyd yn ystod yr ymweliad monitro.

4.3.2 Roedd y ffeiliau'n cynnwys dogfennau recriwtio priodol h.y. ffurflen gais, heb unrhyw fylchau mewn cyflogaeth; 2 eirda ysgrifenedig, gwybodaeth adnabod, cwestiynau cyfweliad, Contract Cyflogaeth wedi'i lofnodi, disgrifiad swydd, asesiad prawf, cynnig cyflogaeth. Fodd bynnag, ni ddarparwyd ffotograffau cyfredol o aelodau'r staff ac arfer gorau fyddai gwahodd tystlythyrau gan wahanol ddarparwyr yn hytrach na'r un un.

4.4 Rheoli Arian Preswylwyr

4.4.1 Ni chanolbwyntiwyd ar y maes hwn yn ystod y tro hwn.

4.5 Diogelwch tân

4.5.1 Cwblhawyd yr Asesiad Risg Tân diweddaraf ym mis Ionawr 2020 gan Unigolyn Cyfrifol blaenorol y gwasanaeth ac roedd Cynllun Argyfwng Tân wedi'i lunio yn 2021. Roedd y staff wedi cynnal archwiliadau rheolaidd o ran profion larwm tân, diffoddwyr tân a goleuadau argyfwng i sicrhau bod popeth yn gweithio'n iawn.

4.5.4 Roedd Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) ar waith ar gyfer pob unigolyn yn y cartref, ac roeddent yn gyfredol. Roedd y rhain yn ffeiliau ar y ffeil Diogelwch Tân, ac roeddent yn bresennol yn ffeil y preswylydd a welwyd yn ystod yr ymweliad.

4.5.5 Roedd ymarferion tân wedi'u cynnal yn aml (y rhan fwyaf o fisoedd) ac roeddent yn cynnwys manylion yr unigolyn dan sylw a'r amseru ac ati.

4.6 Amgylchedd y Cartref

4.6.1 Mae cartref gofal Springfield yn gartref mawr hardd ac roedd yr holl fannau a welwyd yn ystod yr ymweliad yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Mae pobl hefyd yn elwa ar ddigonedd o dir allanol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

4.6.2 Nid oes gan y cartref ystafell ysmygu ar wahân i unigolion/staff ysmygu.

4.6.3 Mae lifft mewnol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pobl a allai fod angen defnyddio hwn i symud rhwng y lloriau.

4.6.4 Nid oes teledu cylch cyfyng ar waith, ond mae larwm diogelwch wedi'i leoli y tu allan i'r adeilad er mwyn rhoi gwybod am unrhyw ymwelwyr annisgwyl.

4.6.5 Mae ystafell wlyb wedi'i gosod yn un o'r ystafelloedd ymolchi presennol ar y llawr gwaelod ac roedd yn ofynnol er mwyn diwallu anghenion un o'r unigolion y gofelir amdano. Bu rhai gollyngiadau dŵr i'r nenfwd, ond cafodd hyn ei gywiro drwy gapio a thynnu'r simneiau. Rhoddwyd gwybod i'r swyddog monitro am gynlluniau i greu ystafell synhwyraidd i bobl gael lle i ymlacio ac a fydd yn brofiad ysgogol.

5. Camau Adfer/Datblygu

Adfer

5.1 Gwybodaeth gwirio DBS i gynnwys a oedd y gwiriad yn glir ai peidio, ac os na, ac y bernir bod y person yn addas i'w benodi, i asesiad risg gael ei roi ar waith yn ei le, fel y bo'n briodol. Amserlen: barhaus. *Rheoliad 35 RISCA.*

5.2 Lluniau o aelodau'r staff i'w cynnwys yn ffeiliau'r staff. Amserlen: ar unwaith ac yn barhaus. *Rheoliad 35 RISCA.*

5.3 Dylid diweddaru'r matrics hyfforddiant gyda'r dyddiadau pan fydd y rheolwr wedi mynychu hyfforddiant i ddiweddaru hyn. Amserlen: O fewn mis ac yn barhaus. *Rheoliad 36 RISCA.*

Maes

5.4 Dylid gofyn am dystlythyrau ysgrifenedig gan wahanol ddarparwyr/sefydliadau fel arfer gorau. Amserlen: Parhaus.

6. Casgliad

6.1 Mae cartref preswyl Springfield yn parhau i ddarparu amgylchedd croesawgar i unigolion fyw ynddo ac i staff ac ymwelwyr hefyd. Roedd y cartref yn teimlo'n hamddenol gyda cherddoriaeth yn chwarae drwy gydol yr ymweliad ac roedd y staff yn groesawgar.

6.2 Mae tîm staff sefydlog ac ymroddedig yn parhau i gefnogi'r unigolion yn eu bywydau bob dydd ac yn eu cynorthwyo i gyflawni eu nodau.

6.3 Mae'r ddogfennaeth yn gynhwysfawr o ran ffeiliau staff a dim ond mân newidiadau sydd eu hangen. Roedd y wybodaeth yn ffeil yr unigolyn a welwyd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn gynhwysfawr ac yn hawdd i'r staff ei dilyn.

6.4 Mae'r cartref i'w ganmol am eu holl waith caled a'u gwyliadwriaeth yn ystod cyfnod heriol iawn a achoswyd gan bandemig Covid-19.

6.5 Hoffai'r Swyddog Monitro Contract ddiolch i'r rheolwr, yr UC a'i thîm am y croeso a'u hamser yn ystod yr ymweliad monitro.

Awdur: Andrea Crahart
Teitl swydd: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: Mehefin 2022

Noder: Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd os byddant yn gofyn am gael eu gweld.